COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 14eg o FAI 2018 YN SWYDDFA'R CYNGOR,NEUADD PONTIETS YN DILYN Y CYFARFOD BLYNYDDOL

Presennol: Ian Evans (Cyn-gadeirydd yn y gadair),Alan Lewis,Linda Williams,Heddwyn Jones,Tyssul Evans,Tracey James,Carol Williams,Aled Williams,Meic Bowen,Geraint Rosser a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Geoff Hewitt a Margaret Rees

Materion Personol:-

1959 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Llongyfarchwyd Ysgol Carwe ar dderbyn Adroddiad boddhaol iawn gan Estyn yn ystod yr wythnosau diwethaf.Hefyd estynnwyd cyfarchion i Richard Lewis (mab Alan Lewis) ar ei ddyrchafiad i swydd Prif Gwnstabl Cynorthwyol.

1960 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 18/04/2018 fel rhai cywir.

1961 Materion yn codi.

Tud 1..Cofnod Rhif 1932 - Safle Ail-gylchu Meinciau – Arhoswn am adroddiad gan y Cyngor Sir am amcan-brys y Camera ar y safle.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1962 Clwb Cyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1963 Urdd Gobaith Cymru - Gwahodd Eisteddfod yr Urdd i Sir Gaerfyrddin 2021 - Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Margaret Rees ein cynrychioli mewn cyfarfod yn Neuadd y Gwendraeth ar Nos Lun, 25/06/18 am 7.00 o'r gloch.

Ceisiadau Cynllunio

1964 Ceisiadau Cynllunio

a) Cais Rhif W/37114 - Mr & Mrs T.Fodor - Fferm Capel Dyddgen, Crwbin - Newid hen Dy yn Dŷ Gwyliau- Dim Gwrthwynebiad.
b) Cais Rhif W/36851/W/36861 -Gower Quarrying Ltd. - Cwar Blaenyfan,Meinciau - Rhyddhau Amodau - Gofyn am Gyfarfod Safle yn y Cwar.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

1965 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Ebrill 2018.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1966 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £402.71 (Mis Ebrill)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Ebrill)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Ebrill)
ch) HMRC (Treth)- £80.40 (Mis Ebrill)

d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Ebrill)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Ebrill)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Ebrill)- £182.00
f) Stampiau - £21.96
ff) EDF - Trydan yn Doiledau'r Meinciau (Mis Ebrill) - £26.47
g) Cyngor Sir Gar – Adolygiad y Parciau - £384.00
ng) Cyngor Sir Gar – Etholiad 2017 - £465.82
h) Treuliau'r Syrfëwr - £35.00
i) Ffon y Syrfëwr - £30.00

Asesiad Risg Cyllidol

1967 Wedi trafodaeth lwyr a chlir, cynigwyd gan Linda Williams ac eiliwyd gan Tracey James ein bod yn derbyn Adroddiad Asesiad Risg Cyllidol am y flwyddyn 2018/2019.

Menter Llwybrau Cyhoeddus

1968 Yn dilyn adroddiad gan y Clerc o e-bost a dderbyniwyd oddiwrth y Cyngor Sir penderfynwyd ein bod yn gofyn am fap a mwy o fanylion a gosod y mater ar Agenda ein cyfarfod nesaf.

Adolygiad y Parciau

1969 Penderfynwyd gosod y mater ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Safleoedd Ail-gylchu

1970 Penderfynwyd ein bod yn ystyried talu £500 yr un i Bwyllgor Parc Carwe a Phwyllgor Neuadd y Meinciau am ganiatâd i osod y blychau ail-gylchu ar eu tir am eleni gan fod y Cyngor Sir yn rhoi'r gorau i'r Cynllun Mabwysiadu Safle . Gofynnir iddynt edrych ar ôl y safle a gwneud yn siŵr ei fod yn cael eu cadw'n ddestlus. Bydd y tal yn cael eu hail-ystyried yn flynyddol.

Materion Cynghorwyr

1971 Tyssul - Paentio'r Blwch Ffon ym Mhontantwn.

1972 Heddwyn – Angen arwyddion Baw Cwn ym Mynwent Nasareth Pontiets

1973 Carol - a) Angen trwsio sedd ger Carn Canol
b) Angen Paentio Safle Bws Garn Canol

1974 Geraint – Angen torri coed rhwng Dwynant a Heol Bancyoffis.

1975 Alan - Cysylltu â'r Heddlu ynglŷn â chyflymder traffig ar y Meinciau.

1976 Ian – a) Coeden wedi cwympo ym Mhontnewydd
b) Cysylltu ag Alan Warner ynglyn a thwll yn yr afon ym Mhontnewydd.
c) Pren yn ishe ar y bont ym Mharc y Llong.
d) Cysylltu â'r Swyddfa Bost ynglŷn a safon y Gwasanaeth yn Swyddfa Carwe.
e) Yn dilyn trafodaeth ar adroddiad o Gyfarfod Un Llais Cymru penderfynwyd ein bod yn derbyn yr egwyddor o gadw 1/3 o gyllid y cyngor mewn llaw yn flynyddol er mwyn cefnogi grantiau lleol.

Cyfarfod nesaf:- 4ydd o Fehefin 2018 yn Ystafell y Band,Crwbin am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……